



## Nodweddion Diddorol

### Porthdy

**A** Dyma'r mynediad i'r Plas o'r gorllewin. Rhoddwyd y Plas a'r tiroedd i dref Machynlleth ym 1948 gan seithfed Ardalydd Londonderry.

### Grisiau Rhufeinig

**B** Dywed rhai i'r grisiau gael eu hadeiladu gan ffermwyr lleol oedd am gael ffordd rwydd i fynd â'u hanifeiliaid i farchnad Machynlleth. Dywed eraill mai'r Rhufeiniaid, oedd â phresenoldeb milwrol yn yr ardal a fu'n cloddio mwynau lleol, a'u hadeiladodd.

### Golygfeydd Machynlleth

**C** Edrychwch dros Gwm Dyfi a Machynlleth. Cewch weld bod y dref wedi'i hadeiladu ar ochr gorlffdir yr afon. Yn y pellter canol y mae Pont ar Ddyfi. Dyma oedd y rhyd isaf ar yr afon, a bu'n ffactor mawr yn nhyfiant y dref. Adeiladwyd y bont gyntaf, o bren, ym 1533, ac adeiladwyd y bont bresennol ym 1805. Mae'r bont yn croesi ffin hynafol rhwng Meirionnydd a Phowys.

### Cwm Llyfnant

**D** Roedd Dyffryn Llyfnant yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid yn Oes Fictoria, ar ôl i'r rheilffyrdd ei hyrwyddo. Arferai fferm Caerhedyn goginio ham ac wyau i'r ymwelwyr.

### Twmpath y Crynwyr

**E** Mae Twmpath y Crynwyr yn garnedd wedi'i dinoethi (o bosib o'r Oes Efyd) ar orlffdir yr Afon Llyfnant, a dywedir iddi gael ei defnyddio'n llwyfan pregethu.

### Canolfan Gweilch

**F** Yn 2011, llwyddodd gweilch y pysgod i fagu cywion am y tro cyntaf ers 400 mlynedd, yng Ngwarchodfa Natur Cors Dyfi, sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn.



## Points of Interest

### Lodge

**A** This is the west entrance to the Plas. The Plas Mansion and grounds were presented as a gift to the Town of Machynlleth in 1948 by the Seventh Marquis of Londonderry.

### Roman Steps

**B** Some attribute them to local farmers who wanted an easy passage for their animals to the busy Machynlleth market. Others attribute them to the Romans who maintained a military presence in the area and mined local minerals.

### Views of Machynlleth

**C** Look across the Dyfi Valley and Machynlleth. You can see how the town has been built on the edge of the flood plain of the river. In the middle distance is Pont ar Ddyfi (Dovey bridge). This was the lowest fording point on the river and was a major factor in the growth of the town. The first bridge, a wooden one, was built in 1533, and the present bridge in 1805. The bridge crosses an ancient boundary between Meirionnydd and Powys.

### Cwm Llyfnant

**D** The Llyfnant Valley was a popular tourist destination for Victorians, after it was promoted by the railways. The farm of Caerhedyn used to cook ham and eggs for the visitors.

### Twmpath y Crynwyr

**E** The 'Quaker's mound' is a denuded cairn (possibly Bronze Age) on the flood plain of the Afon Llyfnant, said to have been used as a preaching platform.

### Osprey Centre

**F** In 2011 Ospreys successfully bred in the Dyfi valley for the first time in over 400 years, on the Montgomeryshire Wildlife Trust's Cors Dyfi Nature Reserve.

## Taith Gerdded Machynlleth i Morben



## Machynlleth to Morben Walk





**Start:** Machynlleth - Y Plas car park  
On A493 from Aberystwyth, take 3rd exit on 1st roundabout

**Grid Reference:** SH 743 004


**Distance:** 8.3 km or 5.1 miles

**Grade:** Moderate

**Terrain:** Roads, firm tracks, woodland paths and fields

**Maps:** OS Explorer OL23

**Refreshments:** Machynlleth and Dyfi Osprey Centre



**Dechrau:** Machynlleth - maes parcio'r Plas  
Ar yr A493 o Aberystwyth, cymrwch y drydedd allanfa ar y cylchdro cyntaf

**Cyfeirnod Grid:** SH 743 004

**Pellter:** 8.3 km neu 5.1 milltir

**Gradd:** Canolig

**Tirwedd:** Ffyrdd, llwybrau cadarn, llwybrau coetir, a chaeau

**Mapiau:** Arolwg Ordnans Explorer OL23

**Lluniau:** Machynlleth a Chanolfan Gweilch Dyfi

1 O'r maes parcio, ewch yn ôl tuag at y fynedfa gan droi i'r chwith wrth y porthdy, trwy giât i ddilyn llwybr gydag arwyddbost i fyny'r grisiau. Anwybyddwch y llwybr ar y chwith, gan ddal i fynd i fyny trwy giât i groesi trac i gyrraedd arwyddbost. Dilynwch y llwybr gwelltog gan fynd heibio tai ar y chwith, a heibio arwyddbost bys, tan i chi gyrraedd arwyddbost arall ger y ffordd. Trowch i'r chwith yn fan hyn i ddilyn y ffordd i fyny ac wedyn i lawr dros grid gwartheg gan ddilyn Llwybr Arfordirol Cymru. Dilynwch y ffordd heibio Gelli Lydan tan i chi gyrraedd arwyddbost bys ar y dde.

2 Ewch dros gamfa gan hanner troi i'r chwith i lawr y cae i gyrraedd camfa ac arwyddbost bys. Trowch i'r dde ar hyd y ffordd hyd at gyffordd, gan droi'n sydyn i'r chwith ac ymlaen i fyny'r ffordd. Pan fydd y ffordd yn troi i'r chwith, ewch ymlaen i ddilyn arwydd y Llwybr Arfordirol.

3 Cymrwch yr ail droad i'r dde wrth y garreg gwards wen a'r arwyddbost bys i fyny llwybr gwelltog a thrwy giât. Cerddwch yn syth ymlaen i gyrraedd postyn arall ger giât, gan anwybyddu'r trac i lawr ar y chwith. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr gwelltog, ac wedyn trowch i'r dde wrth yr arwyddbost bys i fynd i mewn i'r goedwig. Dilynwch y trac i lawr i ymuno â nant ar y chwith, a gadael y goedwig trwy giât, wedyn ewch ymlaen i fynd heibio tŷ ar y dde. Ewch trwy ddwy giât cyn troi i'r chwith ar hyd ffordd darmac.

4 Ychydig cyn i chi gyrraedd hen ysgubor, trowch i'r dde trwy giât gan ddilyn y nant ar y chwith, dros gamfa ac ymlaen ar yr arglawdd cyn mynd trwy giât a throi i'r dde ar hyd ffordd darmac. Wrth y gyffordd, ewch ymlaen trwy giât ar hyd y ffordd, gan fynd heibio i Dŷ Coch ar y dde.

5 Ewch trwy giât ar y chwith wrth yr arwyddbost bys, a cherdded i chwith y pwll i groesi pont. Dilynwch y llwybr i'r chwith i mewn i'r coetir ac ymlaen i lawr trwy ddwy giât. Daliwch i fynd i lawr i groesi pompren, ac wedyn ymlaen i gyrraedd y briffordd. CYMRWCH OFAL gyda'r traffig sy'n dod tuag atoch, cyn croesi a throi i'r chwith i gerdded ar hyd y min ffordd i gyrraedd y Ganolfan Gweilch.



1 From the car park walk back towards the entrance and turn L next to the lodge, through a G to follow a waymarked path up some steps. Ignore a path on the L and continue up to go through a G to cross a track to reach a marker post. Follow the grass path passing houses on your L, past a finger post, to reach another next to a road. Turn L here to follow the road up and then down over a CG following the Wales Coast Path. Follow road past Gelli Lydan to a finger post on the R.

2 Go over a S and half L down field to S and finger post. Turn R along road to a junction, turning sharp L and on up road. Where the road bends L, keep ahead to follow a sign for the Coast Path.

3 Take 2nd turn on R by white quartz boulder and finger post up a grass track and through a G. Walk directly ahead to reach another post next to a G ignoring track down on L. On along grass track, then R at finger post to enter forest. Follow the track down to join a stream on the L and exit the woodland through a G, then walk ahead to pass a house on your R. Go through two Gs before turning L along tarmac road.

4 Just before you reach an old barn, turn R through a G then follow stream on L, over a S and on along the raised embankment before going through a G and turning R along tarmac road. At junction keep ahead through G and on along road, passing Tŷ Coch on R.

5 Go through a G on L next to finger post and walk L of pond to cross a bridge. Follow the path L into the woodland and on down through two Gs. Continue down to cross a FB, then on to reach the main road. WATCH OUT for oncoming traffic, before crossing and turning L to walk along the verge to reach the Osprey centre.



# Taith Machynlleth - Morben Walk

